# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Nicola Bunton**

**Caerfyrddin**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mercher, 13 Chwefror 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Nicola Bunton wedi'i chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru ers mis Ionawr 2015. Mae'r gwarchodwr plant wedi'i chofrestru i ofalu am ddeg plentyn ac yn gofalu am blant hyd at 12 oed, o'i chartref yn Nantgaredig. Mae'r gwasanaeth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 7:00am a 6:00pm. Cymraeg yw prif iaith y gwasanaeth.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn yn hapus ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn cael gofal gan warchodwr plant gofalgar. Mae'n cynnig ystod eang o deganau ac adnoddau mewn awyrgylch ysgogol. Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol iawn ac mae'r gwarchodwr plant yn drefnus gyda phob agwedd ar gadw cofnodion.

### 2. Gwelliannau

Cwblhaodd y gwarchodwr plant ei chymhwyster Lefel tri mewn gofal, dysgu a datblygiad plant ym mis Awst 2018.
Gwnaethom argymell bod y plant yn defnyddio tywelion papur i sychu eu dwylo. Unionwyd hyn yn ystod yr arolygiad.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom sawl argymhelliad mewn perthynas â gofal a datblygu. Mae'r rhain wedi'u rhestru yng nghefn yr adroddiad.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn y gwasanaeth hwn. Ar y cyfan, mae'r plant yn mynegi eu hunain yn dda gan wybod y bydd y gwarchodwr plant yn gwrando arnynt. Mae'r plant yn mwynhau chwarae a dysgu, ac yn ymgysylltu â'u chwarae. Maent yn dysgu ac yn datblygu sgiliau ac yn dod yn annibynnol.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r gwarchodwr plant yn gwrando ar y plant a gallant wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Cânt eu hannog i siarad a mynegi eu hunain.

Pan gyrhaeddom, gwelsom fod y plant yn dewis gweithgareddau o'r silffoedd ac o uned fechan yn y lolfa. Gofynnwyd i'r plant a fyddent yn hoffi mynd i grŵp chwarae ac atebodd un 'no' ac atebodd y llall 'yes'. Aethant i gyd i'r grŵp chwarae. Dewisodd un plentyn lyfr a mynd ag ef at y gwarchodwr plant i ofyn iddi ei ddarllen. Codwyd hi ar ben-glin y gwarchodwr plant a darllenwyd y stori iddi. Yn ystod amser cinio, nid oedd pob plentyn eisiau bwyta a gadawyd iddynt chwarae tan eu bod yn barod i gael eu bwyd. Gofynnwyd i'r plant lle yr hoffent eu ffa pob a'i sbageti; ar eu tost neu ar yr ochr. Dewisodd un plentyn i'w cael ar yr ochr tra bod plentyn arall eisiau eu bwyta ar ei dost.

Gall y plant fod yn hyderus y caiff eu lleisiau eu clywed.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn ddiogel ac wedi setlo'n dda. Mae ganddynt gydberthnasau cynnes â'r gwarchodwr plant.

Roedd y plant yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y grŵp chwarae. Gwelsom y plant yn mynd at y gwarchodwr plant i gael cwtsh, ac roeddent yn galw ei henw pan roedd angen sylw neu help arnynt. Roedd y plant yn hapus gyda'n presenoldeb, ac yn gofyn i ni beth oeddem yn ei wneud. Gwnaeth un plentyn ein cynnwys yn ei chwarae, gan wneud bwyd a diod yn y gegin chwarae.

Mae'r plant wedi ymsefydlu, yn hapus ac wedi ymlacio. Mae hoffter rhyngddynt â'r gwarchodwr plant.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu i reoli eu hymddygiad, cymryd eu tro a chydweithredu â chymorth.

Gwelsom y plant yn chwarae gyda'i gilydd yn gadarnhaol, gan weithio gyda'i gilydd i lenwi jac codi baw gyda cheir bach. Ymatebodd y plant gan ddweud 'diolch', ar ôl cael eu hannog i wneud hynny, pan roddodd y gwarchodwr plant wrthrychau iddynt. Roedd y plant yn esgus

bwyta gyda bwyd plastig ac roeddent yn rhannu eu bwyd â ni. Clywsom y plant yn dweud 'excuse me' wrth iddynt geisio goddiweddyd eraill oedd yn eu ffordd. Roedd angen atgoffa'r plant i fod yn garedig i'w gilydd a rhannu teganau, yn dilyn ffrwgwd. Gwnaethant ysgwyd llaw â'i gilydd a gofynnwyd iddynt i ddweud sori wrth ei gilydd.

Mae'r plant yn dechrau deall beth yw ymddygiadau cadarnhaol.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael iddynt.

Roedd y plant yn gallu archwilio'r amgylchedd yn ddirwystr ac roeddent wedi mwynhau amseroedd tawel. Gwelsom y plant yn hapus wrth ddewis gweithgareddau a symud o'r naill i'r llall. Gwnaeth un plentyn redeg ar ôl un arall o gwmpas y bwrdd coffi, gan esgus saethu ei gilydd. Roedd plentyn arall yn mwynhau gwneud prydau ar ein cyfer; *"Have you finished your sandwich now? Do you want pudding?"* Canodd un o'r plant i'w babi wrth iddi ei magu yn ei breichiau. Roedd angen iddi newid cewyn ei babi gan ei fod wedi gwneud 'wee wee'. Yn ystod eu chwarae, clywsom y plant yn canu caneuon Nadolig wrth iddynt fynd i lawr y llithren.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu'n fawr ac yn teimlo'n gyffrous am y cyfleoedd sydd ar gael.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael amrywiaeth o brofiadau sy'n hybu eu datblygiad.

Roedd y plant yn datblygu eu sgiliau wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau fel chwarae rôl, chwarae yn yr awyr agored a chwarae dŵr. Gwelsom ffotograffau o blant yn pobi ac yn gwneud gweithgareddau crefft. Roedd brecwast a chinio yn cael eu bwydo i'r plant gan nad oeddent eisiau bwyta'n annibynnol, er eu bod yn gallu gwneud hynny. Cyn mynd allan, roedd y plant yn cael help i wisgo eu cotiau a'u hesgidiau. Roedd y plant a oedd yn gallu, yn defnyddio'r toiled yn annibynnol ac yn golchi eu dwylo wedi hynny.

Mae'r plant yn datblygu'n dda, er nad oes ganddynt nifer o gyfleoedd i fod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r plant yn derbyn gofal priodol gan warchodwr plant gofalgar. Mae'n cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ac mae ganddi wybodaeth am ddatblygiad plant. Nid yw'r rhyngweithio bob amser yn cael ei reoli'n gadarnhaol.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth o'i rôl a'i chyfrifoldebau o ran amddiffyn plant. Caiff y plant eu cadw'n ddiogel ac yn iach yn gyffredinol drwy gynnal gweithgareddau corfforol rheolaidd.

Gwelsom fod gan y gwarchodwr plant yr holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith a'u bod wedi cael eu hadolygu eleni. Dangosodd y gwarchodwr plant ddealltwriaeth o weithdrefnau diogelwch plant wrth i ni drafod sefyllfaoedd. Fodd bynnag, dywedodd hi i ddechrau y byddai'n cysylltu â ni os oedd pryder, er bod y polisi'n nodi y dylid cysylltu â'r adran gwasanaethau cymdeithasol. Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael gweithgareddau corfforol rheolaidd, yn y parc ac yn y grwpiau chwarae lleol yn bennaf. Gwelsom nad oedd y gwarchodwr plant yn gwisgo menig na ffedog wrth newid cewynnau, a dywedodd fod y rhieni yn hapus gyda hyn. Fodd bynnag, roedd y polisi newid cewynnau yn nodi y byddai'n gwisgo menig a ffedog. Golchodd y gwarchodwr plant ei dwylo wedyn. Nid oedd y gwarchodwr plant bob tro'n sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn amser bwyd ac roedd y plant yn defnyddio'r un tywel i sychu eu dwylo wrth wneud hynny. Gosododd y gwarchodwr plant dywelion papur yn ei le.

Nid yw'r gwarchodwr plant bob tro yn gyson wrth gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ac nid yw'n dilyn ei pholisïau.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r gwarchodwr plant yn rhyngweithio'n dda gyda'r plant, er nad yw bob tro yn gadarnhaol wrth reoli ffrwgwd neu ymddygiadau negyddol.

Roedd y gwarchodwr plant ar y cyfan yn rhyngweithio'n gadarnhaol gyda'r plant a gwelsom hi'n canmol ymddygiad da a llwyddiannau gyda sylwadau fel "*well done for eating all you snack*" a "*what do we say?.....thank you*". Rhoddodd y gwarchodwr plant 'bump uchel' i blentyn a oedd wedi bwyta ei fwyd i gyd. Fodd bynnag, pan roedd ffrwgwd rhwng dau blentyn, ymatebodd y gwarchodwr plant drwy ddweud "*no, no….you don't do that. Come away from there and don't look at me like that*" Gwnaeth y gwarchodwr plant hefyd dynnu plentyn allan o sefyllfa lle'r oedd anghytundeb ynghylch teganau.

Nid yw'r gwarchodwr plant bob tro yn gadarnhaol nac yn effeithiol wrth reoli rhyngweithrediadau.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda, yn deall eu hanghenion ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am ddatblygiad eu plentyn.

Roedd y gwarchodwr plant wedi gallu dweud wrthym am anghenion y plant a sut roedd hi'n eu diwallu. Rhoddwyd adborth geiriol ar ddiwedd pob dydd i rai rhieni tra bod eraill wedi dewis dyddiadur dyddiol a oedd yn cael ei ddefnyddio gan y gwarchodwr plant a'r rhieni. Cymraeg yw iaith y gwasanaeth yn bennaf gyda pheth Saesneg. Roedd y gwarchodwr plant yn gallu adnabod plant yr oedd angen cwsg arnynt ac a oedd yn dangos arwyddion o flinder, ac yn annog amseroedd tawel ar ôl mynychu grŵp chwarae. Roedd y gwarchodwr plant yn defnyddio cyfleoedd adeg prydau bwyd i drafod lliwiau a siapau ac yn cyfri gyda'r plant. Roedd y gwarchodwr plant yn hyrwyddo ymwybyddiaeth diogelwch ar y ffordd gyda'r plant wrth iddynt gerdded draw i'r ysgol; gwrando ar draffig, edrych y ddwy ffordd i weld os oedd y ffordd yn glir a dal dwylo ar bob adeg.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad plant yn briodol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn lân ac mae digon o le chwarae dan do ac awyr agored. Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael sy'n briodol i oedran y plant ac mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar eu llesiant a'u dysgu. Gall y plant fynd i nôl yr adnoddau'n hawdd a chânt eu storio'n ddiogel.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r safle yn ddiogel, yn lân ac yn daclus.

Roedd y safleoedd yn ddiogel ac roedd y drysau'n aros ar gau ac wedi'u cloi. Roedd cofnodion o ymwelwyr â'r gwasanaeth a chofnodwyd amseroedd cyrraedd a gadael gwirioneddol y plant. Gwelsom fod gwiriadau asesiadau risg wedi cael eu cwblhau gan y gwarchodwr plant. Roedd y gwarchodwr plant wedi rhoi gwybod i'r asiantaeth safonau bwyd ynglŷn â'i gwasanaeth ond nid oedd wedi cael arolygiad. Gwelsom y gwarchodwr plant yn cynnal arferion hylendid da wrth baratoi a thrin bwyd. Roedd y plant bach yn eistedd ar glustogau codi ar gadeiriau wrth y bwrdd ac roedd cadeiriau uchel ar gael.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd yn dda.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle'n groesawgar, yn addas, mewn cyflwr da ac wedi'i addurno'n dda.

Gwelsom fod y plant yn cael gofal da mewn amgylchedd chwarae a oedd yn lân, yn briodol i blant ac yn addas at y diben. Y lolfa flaen oedd yr ystafell chwarae benodedig ar gyfer y plant gydag adnoddau ar eu lefel a digonedd o le i chwarae. Roedd y gegin yn fawr gyda digon o le ar gyfer cadair uchel, bwrdd bwyta mawr ar gyfer y plant hŷn i eistedd o gwmpas i fwyta eu prydau ynghyd â gwneud gweithgareddau crefft. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod y plant yn cael mynd i'r ardd gefn ynghyd â'r ardal fawr ar flaen y tŷ lle'r oedd trampolîn, llithren a siglenni.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ardal fawr ac ysgogol i'r plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar?

Mae gan y gwarchodwr plant gyflenwad da o deganau a chyfarpar sy'n addas i anghenion y plant.

Gwelsom fod y plant yn cael dewis o adnoddau megis jig-so, doliau a bygis, gemau lotto a gemau bwrdd ar gyfer y plant hŷn, cegin chwarae gyda bwyd a llestri, troctorau, ceir, tryciau, deunydd crefft a lliwio, adnoddau chwarae synhwyraidd, set trên, chwarae byd bach a dewis o lyfrau. Roedd yr adnoddau'n lân ac yn briodol i oedran a/neu ddatblygiad pob plentyn yng ngofal y gwarchodwr plant. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod

cyflenwad helaeth o deganau ganddi i fyny'r grisiau, a'u bod yn u cyfnewid er mwyn cadw diddordeb y plant.

Mae gan y gwarchodwr plant gyflenwad da o deganau ac adnoddau addas sy'n briodol i oedran y plant.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r gwasanaeth yn dda ac yn casglu adborth gan rieni er mwyn adolygu'r gwasanaeth.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol.

Roedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau ar waith a gwelsom eu bod yn cael eu hadolygu'n flynyddol, fel arfer tua mis Medi. Fodd bynnag, nid oedd y polisi newid cewynnau yn gywir ac roedd angen ei ddiweddaru. Roedd y gwarchodwr plant yn anfon negeseuon testun rheolaidd a ffotograffau o'u plant at y rhieni. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn mwynhau ei swydd yn gofalu am y plant. Nid oedd gan y gwarchodwr plant ymwybyddiaeth o'r 'Ddyletswydd Atal' a thrafodom yr angen iddi ymgynefino â'r canllawiau.

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol yn gyffredinol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ei gwasanaeth yn rheolaidd ac mae'n casglu adborth gan rieni.

Gwelsom fod y gwarchodwr plant yn defnyddio holiaduron a thrafodaethau gyda'r rhieni er mwyn adolygu ei gwasanaeth. Trafodom gyda'r gwarchodwr plant yr angen i ystyried barn y plant ynglŷn â'r adolygiad nesaf o ansawdd y gofal.

Mae hunanwerthusiad y gwarchodwr plant yn sylfaenol ac mae angen ei ddatblygu.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei busnes ac yn cael y gwiriadau angenrheidiol.

Roedd y gwarchodwr plant yn deall ei chyfrifoldeb i hysbysu AGC am unrhyw newidiadau i aelodau'r cartref a/neu ei gwasanaeth. Gwelsom ffeiliau'r plant a gwelsom fod y gwarchodwr plant wedi cwblhau'r holl waith papur, wedi arwyddo'r llythyrau caniatâd yn gywir ac roedd contractau ar waith rhwng y rhieni a'r gwarchodwr plant. Ni welsom unrhyw gofnodion damweiniau gan nad oedd un wedi bod ers cofrestru. Roedd hyfforddiant y gwarchodwr plant wedi cael ei ddiweddaru ac roedd hi wedi cwblhau cymhwyster lefel tri.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei busnes yn briodol.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan y gwarchodwr plant bartneriaethau cadarnhaol â'r plant, y rhieni a gwarchodwyr plant eraill.

Derbyniom dri holiadur gan rieni, a oedd yn cynnwys adborth cadarnhaol ynglŷn â'r gwasanaeth a oedd yn dweud wrthym eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd eu plentyn. Roedd y gwarchodwr plant mewn cysylltiad â gwarchodwyr plant eraill yr oedd hi wedi cwrdd â nhw mewn grwpiau chwarae lleol. Roedd y gwarchodwr plant yn mynd â'r plant i'r traethau lleol, ardaloedd chwarae meddal a pharciau lleol.

Roedd gan y gwarchodwr plant bartneriaethau da â'r rhieni a gwarchodwyr plant eraill yn yr ardal.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell fod y gwarchodwr plant yn gwneud y canlynol

- Sicrhau bod plant yn golchi eu dwylo cyn prydau bwyd;
- darparu tywelion papur i'r plant sychu eu dwylo;
- cofnodi pob damwain, pa mor fychan bynnag ydyw;
- diweddaru'r polisi newid cewynnau;
- adolygu a diweddaru hyfforddiant ar reoli ymddygiad;
- ymholi i weld a oes angen iddi gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac
- ymgynefino â'r canllawiau 'Dyletswydd Atal'.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Cynhaliodd un arolygydd un ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth ar 11 Rhagfyr 2018 a chynhaliwyd arolygiad â rhybudd pellach ar 13 Rhagfyr am gyfanswm o bum awr a hanner. Gwnaethom roi adborth dros y ffôn ar 20 Rhagfyr 2018, am dri deg munud.

- Gwnaethom arsylwi'r plant a'r gofal a roddwyd iddynt gan y gwarchodwr plant;
- gwnaethom edrych ar sampl o ddogfennau gan gynnwys ffeiliau'r plant, polisïau a gweithdrefnau, cofnodion meddyginiaeth a damweiniau, tystysgrifau hyfforddiant ac asesiadau risg;
- gwnaethom siarad â'r gwarchodwr plant a'r plant a oedd yn bresennol;
- gwnaethom ddosbarthu holiaduron rhieni a chawsom dri yn ôl;
- cerddom gyda'r gwarchodwr plant i fynd â'r plant i'r ysgol leol;
- aethom i'r grŵp chwarae lleol am y bore a
- gwnaethom archwilio'r safle dan do ac yn yr awyr agored.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn a wnawn ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Nicola Bunton** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **10** |
| **Ystod oedran y plant** | **0 – 12 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Gwener 7.00am – 6.00pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **23 Mehefin 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **11 a 13 Rhagfyr 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |